Cyfarfod hybrid y **PWYLLGOR CYLLID A MATERION CYFFREDINOL** a gynhaliwyd nos Fercher, 6 Medi 2023, am 6.00pm.

## PRESENNOL

Y Cynghorydd A. J. Rutherford (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr M. Blackwell, Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs J. Chamberlain-Jones, Mrs E. M. Chard, Mrs J. M. Evans, S. Feeney, A. R. James, Mrs D. L. King, Ms J. L. McAlpine, Mrs W. M. Mullen-James, P. Prendergast, Ms R. Roberts, Miss S. L. Roberts, Ms V. Roberts, D. Simmons, A. Walker a Miss C. L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc

## 19. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Mrs M. A. Blakeley-Walker, K. R. Jones a B. Mellor.

## 20. ETHOL CYNGHORYDD CYMUNED – WARD CEFNDY, Y RHYL

Adroddodd y Cadeirydd fod y Cynghorydd Ms Rachel Roberts wedi llofnodi ei datganiad derbyn y swydd ac fe'i llongyfarchwyd a'i chroesawu i'w chyfarfod ffurfiol cyntaf.

## 21. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU (ATODLEN A) – GORFFENNAF AC AWST 2023

Cyfeiriodd y Cadeirydd at adroddiad Clerc y Dref (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) yn rhoi manylion y taliadau a wnaed a'r incwm a dderbyniwyd.

### Mis Gorffennaf

| Rhif taleb | Enw'r cyflenwr | Swm | Disgrifiad y nwyddau/gwasanaeth |
|---|---|---|---|
| 1526 | Tesco | 3.00 | Yswiriant ffôn symudol HW |
| 1662 | BT | 591.39 | Llogi llinell ffôn a chostau galwadau |
| 1660 | Shire Leasing | 337.33 | Les system ffôn Avaya Chwarter 2 23/24 |
| 1664 | Cyngor Sir Ddinbych | 15,000.00 | Camerâu teledu cylch cyfyng 23/24 |
| 1663 | HSBC | 8.00 | Costau banc |
| 1526 | Tesco | 12.99 | Costau ffôn symudol HW |
| 1665 | Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi | 2,983.11 | Didyniadau talu wrth ennill mis Mehefin 2023 |
| 1666 | Cronfa Bensiwn Clwyd | 4,737.10 | Didyniadau pensiwn a chyllido'r diffyg – mis Mehefin 2023 |
| 1667 | Staff Cyngor Tref y Rhyl | 7,861.51 | Cyflogau net mis Gorffennaf 2023 |
| 1617 | Cyngor Sir Ddinbych | 753.00 | Ardrethi Annomestig y Swyddfeydd Dinesig 23/24 – taliad 4 o 10 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1658 | Cyngor am Fudd-daliadau | 1,166.67 | Swyddog Apeliadau 23/24 – taliad 4 o 12 |
| 1539 | Tesco | 3.00 | Yswiriant ffôn symudol GN |
| 1539 | Tesco | 12.99 | Costau ffôn symudol GN |
| | **Cyfanswm taliadau** | **£33,470.09** | |

| Categori | Disgrifiad | Swm |
|---|---|---|
| Santander | Llog y Cyfrif Hysbysiad 31 diwrnod | 255.00 |
| HSBC | Llog Adneuo 7 diwrnod | 26.88 |
| HSBC | Llog Adneuo 7 diwrnod | 26.88 |
| HSBC | Llog Adneuo 7 diwrnod | 26.88 |
| HSBC | Llog Adneuo 7 diwrnod | 23.01 |
| | | |
| | **Cyfanswm incwm** | **£358.65** |

**<u>Mis Awst</u>**

| Rhif taleb | Enw'r cyflenwr | Swm | Disgrifiad y nwyddau/gwasanaeth |
|---|---|---|---|
| 1526 | Tesco | 3.00 | Yswiriant ffôn symudol HW |
| 1677 | HSBC | 8.00 | Costau banc |
| 1526 | Tesco | 12.99 | Costau ffôn symudol HW |
| 1678 | Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi | 2,983.50 | Didyniadau talu wrth ennill mis Gorffennaf 2023 |
| 1679 | Cronfa Bensiwn Clwyd | 4,737.10 | Didyniadau pensiwn a chyllido'r diffyg – mis Gorffennaf 2023 |
| 1680 | Staff Cyngor Tref y Rhyl | 7,896.18 | Cyflogau net mis Awst 2023 |
| 1617 | Cyngor Sir Ddinbych | 753.00 | Ardrethi Annomestig y Swyddfeydd Dinesig 23/24 – taliad 5 o 10 |
| 1658 | Cyngor am Fudd-daliadau | 1,166.67 | Swyddog Apeliadau 23/24 – taliad 5 o 10 |
| | **Cyfanswm taliadau** | **£17,560.44** | |

| Categori | Disgrifiad | Swm |
|---|---|---|
| Santander | Llog y Cyfrif Hysbysiad 31 diwrnod | 285.16 |
| HSBC | Llog Adneuo 7 diwrnod | 23.02 |
| HSBC | Llog Adneuo 7 diwrnod | 23.02 |
| HSBC | Llog Adneuo 7 diwrnod | 23.02 |
| HSBC | Llog Adneuo 7 diwrnod | 23.02 |
| HSBC | Llog Adneuo 7 diwrnod | 23.02 |
| Cyngor Sir Ddinbych | Praesept 2 o 3 ar gyfer 2023/24 | 185,318.00 |
| | **Cyfanswm incwm** | **£185,718.26** |

***<u>PENDERFYNWYD</u>*** *derbyn a chymeradwyo'r adroddiad.*

## 22. <u>AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR CYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)</u>

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2017, ac yn unol â rheoliadau ariannol mabwysiedig y Cyngor, cyfeiriodd y Cadeirydd at Atodlen B a gyflwynwyd gan Glerc y Dref (rhestr o daliadau nad ydynt yn rhai rheolaidd i'w talu yn ystod y mis nesaf) (dosbarthwyd gyda'r agenda).

| Taleb rhif | Cyflenwr | Manylion | Swm £ |
|---|---|---|---|
| 1681 | Zoom | System yn Siambr y Cyngor | 143.88 |
| 1682 | Butteez Ltd | Arlwyo i'r Sul Dinesig – 30 Gorffennaf 2023 | 480.00 |
| 1685 | Cyng. C. L. Williams | Treuliau Dirprwy Faer – Gorffennaf 2023 – dillad | 188.00 |
| 1686 | Cyng C. L. Williams | Treuliau Dirprwy Faer – Gorffennaf 2023 – costau teithio | 122.05 |
| 1687 | Llewod Prestatyn a'r Rhyl | Dau docyn i'r Noson Siarter, 14 Hydref 2023 | 56.00 |
| 1688 | Cyngor Sir Ddinbych | Contractau cynnal a chadw tiroedd a'r Gerddi Coffa 2023/24 | 46,477.50 |
| 1689 | Gwasanaethau Hamdden Sir Ddinbych Cyf. | Cyfraniad at Ddigwyddiadau'r Rhyl (Sioe Awyr, Digwyddiadau'r Haf a Digwyddiadau Nadolig) | 40,000.00 |
| 1690 | Sage & Co | Gwasanaethau cyflogres Ebrill – Mehefin 2023 | 102.60 |
| 1691 | Canda | Llogi llungopïwr | 259.32 |
| 1692 | Canda | Costau'r llungopïwr | 340.81 |
| 1693 | Rhyl BID | Ardoll Rhyl BID 1/4/23 – 1/3/24 | 251.71 |
| 1694 | Rhyl BID | Ardoll Rhyl BID 1/3/23 – 1/4/23 | 23.36 |
| 1695 | BJS Solutions | Contract cynnal caledwedd 2023 | 1,554.00 |
| 1696 | The Poppy Shop | Torchau | 150.00 |
| | **Cyfanswm Atodlen B** | | **£90,149.23** |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo talu'r taliadau yn yr atodlen a'u llofnodi gan ddau gynghorydd.*

**23. PERFFORMIAD BUDDSODDIADAU 2022/23 (CHWARTER 1: EBRILL – GORFFENNAF 2023)**

Ymhellach i gofnod rhif 43 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 19 Gorffennaf 2023, cyfeiriodd Clerc y Dref at yr adroddiad ar y cyd ganddo a'r Swyddog Cyllid (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) ynghylch buddsoddiadau'r cyngor am y cyfnod a nodwyd a'r rhagfyngiadau ar gyfer y flwyddyn.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad.*

**24. CYFRIFON ARIANNOL HYD AT 31 GORFFENNAF 2023 A RHAGFYNEGIADAU AR GYFER BLWYDDYN ARIANNOL 2023/24**

Cyfeiriodd Clerc y Dref at ei adroddiad ar y cyd gyda'r Swyddog Ariannol (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) yn dangos y perfformiad yn erbyn y gyllideb.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad.*

**25. YMGYNGHORIAD: AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU – ADOLYGIAD Y DARPARIAETH GWASANAETH BRYS**

Adroddodd y Cadeirydd y derbyniwyd y ddogfen uchod (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) a chyfeiriodd at yr ymateb a awgrymwyd ganddo (a ddosbarthwyd yn flaenorol drwy gyfrwng e-bost) i'r aelodau ei ystyried.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r ymateb gan ychwanegu'r risg i drigolion y Rhyl ar adegau llifogydd ac anfon copi o'r ymateb i Gyngor Sir Ddinbych ac i gynrychiolwyr yr Awdurdod Tân.*

**26. CYNGOR TREF RHUTHUN – CYNHADLEDD CANOL TREFI**

Hysbysodd y Cadeirydd y derbyniwyd gwahoddiad gan Gyngor Tref Rhuthun i gynrychiolydd o Gyngor Tref y Rhyl ddod i'r gynhadledd uchod ar 20 Medi 2023 (dosbarthwyd gyda'r agenda).

***PENDERFYNWYD*** *derbyn y gwahoddiad.*

**27. EITEM ER GWYBODAETH: CYNGOR SIR DDINBYCH – SAFLE MAES EMLYN**

Ymhellach i gofnod rhif 96 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 21 Rhagfyr 2022, adroddodd y Cadeirydd y derbyniwyd gohebiaeth gan Liz Grieve, Pennaeth y Gwasanaeth Tai a Chymunedau, y Cynghorydd Jason McLellan, Arweinydd Cyngor Sir Ddinbych a'r Cynghorydd Rhys Thomas, Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau (a ddosbarthwyd gyda'r agenda).

Ar ôl trafodaeth ***PENDERFYNWYD*** *gofyn i Glerc y Dref wahodd Ms Grieve a Swyddogion Digartrefedd i gyfarfod y Cyngor yn y dyfodol i esbonio sut mae pobl ddigartref yn cael eu prosesu a'r cynllun cyffredinol ar gyfer mynd i'r afael â digartrefedd yn y tymor hir.*

***PENDERFYNWYD YMHELLACH*** *atal y Rheolau Sefydlog i alluogi Clerc y Dref i ymateb ar frys.*

**28. EITHRIO'R WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD*** *eithrio'r Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod ystyried yr eitemau busnes a ganlyn, yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960, ar sail cyfrinachedd.*

**29. COFNODION CYFRINACHOL**

Cyflwynwyd y cofnodion isod (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) er gwybodaeth i'r aelodau ac i gymeradwyo'r argymhellion a gynhwyswyd ynddynt:

Yr Is-bwyllgor Cynnal a Chadw Tiroedd - 23 Mawrth 2023 - Cofnodion rhifau 31-37

Yr Is-bwyllgor Asesu Risg - 24 Ebrill 2023 - Cofnodion rhifau 43-48

Yr Is-bwyllgor Asesu Risg - 30 Mai 2023 - Cofnodion rhifau 1-6

***PENDERFYNWYD*** *derbyn a chymeradwyo'r cofnodion.*

## 30. DIWEDD Y CYFARFOD

Gan nad oedd rhagor o eitemau busnes i'w trafod cyhoeddodd y Cadeirydd fod y cyfarfod wedi diweddu.

Cadeirydd: ………………………

Dyddiad: ………………………